

Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru



Comisiynwyd gan



Cefnogwyd gan
Y Lloeri Genedlaethol
trwy Gronfa Dreftadaeth y Lloeri



Visit Wales
Croeso Cymru

Am ragor o wybodaeth ffoniwch yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar **02920 462 281**

www.nationaltrust.org.uk/value-welsh-historic-environment

Medi 2010



Ymchwil, cynllunio a chynhyrchu'r adroddiad gan
ECOTEC Research and Consulting Ltd.

Delweddau:

Clawr Blaen

(gyda'r cloc o'r uchaf ar y chwith)

Castell Caernarfon

Darganfod Dyffryn Tywi © Tywi Afon yr Oesoedd

Sgiliau adeiladu traddodiadol © Tywi Afon yr Oesoedd

Big Pit Blaenafon © HLF/Darren Britton

Camlas, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plentyn yn gwisgo helmed © NTPL/Paul Harris

Cynnwys

Cefndir yr Astudiaeth	2
Gwerth Economaidd Amgylchedd Hanesyddol Cymru	6
Gwerth Ehangach Amgylchedd Hanesyddol Cymru	10
Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon	16
Castell Caernarfon	18
Menter Treftadaeth Treflun Aberteifi	20
Bryngaer Oes yr Haearn Castell Henllys, Sir Benfro	22
Tŷ a Gerddi Erddig, Wrecsam	24
Cyfres Deledu 'Hidden Histories'	26
Camlas Mynwy ac Aberhonddu	28
Gwesty Morgans, Abertawe	30
Tywi Afon yr Oesoedd, Sir Gaerfyrddin	32
Casgliadau	34

Cefndir yr Astudiaeth

Yr hyn a ysgogodd yr Astudiaeth

Mae Partneriaeth Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd yn cydweithio i ddod o hyd i dystiolaeth economaidd gadarn bod yr amgylchedd yn hanfodol i ffyniant Cymru. Dros y ddegawd diwethaf, mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru wedi bod yn arwain y gwaith, mewn cydweithrediad â phartneriaid craidd sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac adrannau o Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn arbennig Croeso Cymru ac Adran yr Economi a Thrafnidiaeth.

Roedd Grŵp Amgylchedd Hanesyddol y Gweinidog Treftadaeth, a sefydlwyd i gynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar weithredu er budd yr amgylchedd hanesyddol a'i hybu, wedi nodi bod yng Nghymru ddiffyg dystiolaeth gyfoes sy'n dangos holl rychwant ei buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Yn ogystal, roedd diffyg methodoleg gyson o ran casglu data yn barhaus. Cytunodd Partneriaeth Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd i arwain y gwaith ymchwil hwn drwy gyfrwng gweithgor arbennig dan arweiniad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r gweithgor yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru (Cadw, Croeso Cymru ac Adran yr Economi a Thrafnidiaeth), Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Sir Benfro ac Eryri a Chronfa Dreftadaeth y Loteri.

Gellir dadlau'n gryf bod diffyg gwerthfawrogiad o fuddion amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd treftadaeth wedi arwain at dan-gyllido'r amgylchedd hanesyddol. Mae nodi a meintoli gwerth y sector yng Nghymru yn fanylach yn gam hanfodol tuag at dderbyn bod yn rhaid buddsoddi, neu fe fyddant yn dirywio.

Y Gwaith Ymchwil

Ym mis Chwefror 2010, comisiynwyd ECOTEC Research and Consulting Ltd gan y Bartneriaeth Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd i wneud gwaith ymchwil er mwyn rhoi gwerth ar amgylchedd hanesyddol Cymru; a hynny yn nhermau economaidd pur ac yn yr ystyr ehangach, sef ei werth cymdeithasol.

Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys yr elfennau allweddol canlynol:

- Adolygiad o ddata a llenyddiaeth eilaidd.
- Ymgynghoriadau â 38 o unigolion o 24 o sefydliadau sy'n gweithio yn y sector amgylchedd hanesyddol.
- Asesiad economaidd o gyfraniad y sector amgylchedd hanesyddol i economi Cymru.
- Datblygu naw astudiaeth achos sy'n dangos gwerth meintiol amgylchedd hanesyddol Cymru, a oedd yn cynnwys 11 o ymgynghoriadau pellach.
- Datblygu fframwaith monitro sy'n cynnig methodoleg gyson i bartneriaid yn y sector er mwyn iddynt gasglu data yn barhaus.

Yn sgil y gwaith ymchwil hwn, lluniwyd yr adroddiadau canlynol:

- Yr adroddiad hwn - Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru
- Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru: Crynodeb
- Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru: Adroddiad Technegol ar yr Effaith Economaidd (pdf)
- Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru: Fframwaith Monitro (pdf)

Yn gyffredinol, mae'r astudiaeth yn helpu i hybu achos dros fuddsoddi yn amgylchedd hanesyddol Cymru drwy ddangos gwerth cyhoeddus asedau hanesyddol ledled Cymru a'r angen am ddarpariaeth mynediad, buddsoddiad a chadwraeth ddigonol.



Diffinio Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Nid oes unrhyw ddiffiniad cydnabyddedig o'r sector amgylchedd hanesyddol. At ddibenion asesu cyfraniad economaidd, mae 'craidd' y sector amgylchedd hanesyddol yn cynnwys y sefydliadau hynny y gellir ystyried eu bod wrth wraidd y sector amgylchedd hanesyddol, fel y diffinnir isod:

Diffinio 'craidd' y sector amgylchedd hanesyddol

Sefydliadau sy'n mynd ati i gadw, cynnal, rheoli a/neu greu mynediad at amgylchedd hanesyddol Cymru. Yn arbennig, mae'r gwaith ymchwil hwn yn canolbwyntio ar yr asedau canlynol:

- Safleoedd archeolegol / henebion cofrestredig
- Adeiladau rhestredig
- Ardaloedd cadwraeth
- Tirweddau dyluniedig / gerddi hanesyddol cofrestredig
- Tirweddau hanesyddol cofrestredig
- Morluniau hanesyddol
- Amgueddfeydd / canolfannau treftadaeth, pan fyddant wedi'u lleoli mewn adeilad/ased hanesyddol

Graddfa Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Mae'r sector amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn cynnwys ystod o sefydliadau sydd â chylch gwaith sylfaenol o gynnal, cadw neu reoli'r amgylchedd hanesyddol. Mae'r sefydliadau hyn yn rhan o'r sector cyhoeddus (e.e. Cadw), y sector preifat (e.e. penseiri sy'n arbenigo mewn adeiladau hanesyddol) a'r sector gwirfoddol (e.e. ymddiriedolaethau cadwraeth adeiladau). Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cofio bod yr amgylchedd hanesyddol hefyd yn rhan hanfodol, er nad cwbl amlwg, o waith sefydliadau eraill nad ydynt yn canolbwyntio'n bennaf arno, er enghraifft Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a Croeso Cymru.

Cefndir yr Astudiaeth (parhad)

Mae'r tabl canlynol yn rhoi awgrym o raddfa amgylchedd hanesyddol Cymru. Yn ogystal â'r asedau hyn, ceir hefyd ystod o asedau hanesyddol heb eu cofrestru / heb eu dynodi sy'n bwysig iawn yn lleol.

Math	Nifer
Safleoedd Treftadaeth y Byd	3
Adeiladau rhestredig	29,889
Henebion cofrestredig	4,111
Llongddrylliadau hanesyddol dynodedig	6
Tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig	428
Ardaloedd cadwraeth	519

*Ffynhonnell: Datganiad Strategol Amgylchedd Hanesyddol Cymru, 2009;
Amgylchedd Hanesyddol Cymru: Datganiad Sefyllfa, 2008*




Gwerth Economaidd Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Asesu Gwerth Economaidd Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Mae'r gwaith o asesu gwerth economaidd amgylchedd hanesyddol Cymru yn tynnu ynghyd canlyniadau ymchwil sylfaenol ac eilaidd er mwyn edrych yn fanwl ar gyfraniad sector yr amgylchedd hanesyddol i economi Cymru. Mae'r dystiolaeth a'r dadansoddiad yn ymwneud â gweithgarwch economaidd y gellir ei briodoli, yn ei dro, i'r sefydliadau hynny sy'n rhan o 'craidd mewnol' y sector amgylchedd hanesyddol, sector y dreftadaeth adeiledig, ynghyd â gwariant gan dwristiaid sy'n cael eu denu i Gymru yn bennaf gan yr amgylchedd hanesyddol. Ar gyfer pob un o'r 'pileri' hyn, mae'n ystyried y cyfraniad uniongyrchol¹, yn ogystal â'r cyfraniad anuniongyrchol² a chyfraniadau a ysgogwyd³ gan y sector amgylchedd hanesyddol.

Mae 'craidd mewnol' y sector amgylchedd hanesyddol wedi'i ddiffinio at ddibenion yr astudiaeth i gynnwys y sefydliadau hynny y gellir ystyried eu bod wrth wraidd y sector amgylchedd hanesyddol (h.y. gweithgareddau sy'n ymwneud â diogelu, gwella a chadwraeth y sector amgylchedd hanesyddol): (1) cyflogwyr mawr a chyrff grantiau, megis Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL), (2) sefydliadau llai megis ymddiriedolaethau a chymdeithasau, sydd â *raison d'être* o gynnal a chadw'r amgylchedd hanesyddol, (3) adrannau perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol, a (4) sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau pensaernïol ac archeolegol arbenigol.



Troednodion:

- ¹ Mae cyfraniad uniongyrchol yn cynnwys cyflogaeth uniongyrchol, gwariant ac allbwn gan sefydliadau sydd yng 'nghraidd mewnol' y sector amgylchedd hanesyddol, allbwn y dreftadaeth adeiledig, a gwariant gan dwristiaid sydd wedi'u denu'n bennaf i Gymru gan ei hamgylchedd hanesyddol.
- ² Mae cyfraniad anuniongyrchol yn cynnwys prynu mewnbynnau gan gwmnïau sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i 'craidd mewnol' y sector amgylchedd hanesyddol, sector y dreftadaeth adeiledig a sefydliadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, gan gynnwys gwestai a bwytai.
- ³ Mae cyfraniad a ysgogwyd yn cynnwys y buddion i economi Cymru o ganlyniad i gynydd mewn incwm a gwariant gan bobl sy'n gweithio yng 'nghraidd mewnol' y sector amgylchedd hanesyddol, sector y dreftadaeth adeiledig a'r sector twristiaeth, a'r busnesau hynny sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i'r sectorau hyn.



Cyfanswm y Cyfraniad Economaidd

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi cyfraniad economaidd crynswth sector amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'n ystyried cyfraniad economaidd y sefydliadau hynny sy'n rhan o 'graidd mewnol' y sector amgylchedd hanesyddol, ynghyd â gwariant gan dwristiaid sy'n cael eu denu i Gymru yn bennaf gan ei hamgylchedd hanesyddol.

Mae'n bwysig nodi bod y canlyniadau hyn yn rhai ceidwadol iawn, yn bennaf oherwydd y canlynol:

- Roedd y gwaith ymchwil wedi mabwysiadu diffiniad cul iawn o'r amgylchedd hanesyddol, er mwyn sicrhau bod y dull o weithio yn dryloyw ac yn gadarn. Fodd bynnag, o ganlyniad i hyn, mae'n debygol y bydd y dull yn tanbrisi gwir werth y sector.
- Yn ogystal â defnyddio tystiolaeth eilaidd, aeth y gwaith ymchwil ati hefyd i ddadansoddi data sylfaenol a gasglwyd gan sefydliadau sy'n gweithredu yn y sector amgylchedd hanesyddol. Fodd bynnag, mae prosesau casglu a chofnodi gwybodaeth yn amrywio ar draws sefydliadau ac o ganlyniad, nid oedd modd i bob un ohonynt ddarparu dadansoddiad o'u hallbynnau a'u gwariant a oedd yn ymwneud yn benodol â'r amgylchedd hanesyddol. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn yn y dyfodol, mae ECOTEC wedi cynnig fframwaith monitro cyson i gefnogi sefydliadau wrth ystyried gwerth parhaus amgylchedd hanesyddol Cymru.

Y sector amgylchedd hanesyddol: Cyfanswm y cyfraniad economaidd⁴

	Uniongyrchol	Anuniongyrchol a Chymelledig	Cyfanswm
Allbwn ⁵ (£m)	£1,055.0	£951.0	£1,837.1
Cyflogaeth ⁶ (FTE)	19,317	13,176	30,453
GYC ⁷ (£m)	£497.1	£406.6	£839.4

Ffynhonnell: Dadansoddiad gan ECOTEC; mae gwerth yr allbwn a'r GYC wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant. Caiff y prif ffigurau eu cyflwyno yn unol â phrisiau 2009. Mae'n bosibl na fydd y swm a geir wrth adio'r uchod yn cyfateb i'r cyfanswm o ganlyniad i dalgrynnu.


Troednodion:

- ⁴ Mae'n bwysig nodi nad yw swm cyfraniadau unigol y tair agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol yn cynrychioli gwir effaith economaidd yr amgylchedd hanesyddol, o ganlyniad i orgyffwrdd a chyd-ddibyniaeth o fewn y sector.
- ⁵ Allbwn (trosiant) yw cyfanswm gwerth yr holl nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn economi.
- ⁶ Mae Cyflogaeth (cyfwerth ag amser llawn (FTEs)) yn mesur i ba raddau y mae gweithiwr yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Mae FTE o 1.0 yn golygu bod ymdriniaeth yr unigolyn hwnnw â'r amgylchedd hanesyddol cyfwerth â gweithiwr llawn amser. Os yw gweithiwr yn neilltuo 18.5 awr yr wythnos i'r amgylchedd hanesyddol, byddai hyn yn cynrychioli FTE o 0.5, yn seiliedig ar wythnos waith o 37 awr ($18.5/37 = 0.5$).
- ⁷ Y GYC yw'r gwahaniaeth rhwng allbwn a threuliant canolraddol sector / diwydiant h.y. y gwahaniaeth rhwng gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir a chost y deunyddiau crai a mewnbynnau eraill a ddefnyddir i'w cynhyrchu.

Gwerth Economaidd Amgylchedd Hanesyddol Cymru (parhad)

Dyma amlinelliaid o brif ganfyddiadau'r asesiad economaidd:

- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu'n sylweddol iawn i economi Cymru, gan gefnogi mwy na 19,000 o swyddi FTE.
- Gan gynnwys effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol, tybir bod y sector amgylchedd hanesyddol yn cefnogi dros 30,000 o swyddi FTE yng Nghymru.
- Ar y cyfan, tybir bod y sector amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu rhyw £840 miliwn i GYC cenedlaethol Cymru, sydd gyfwerth ag 1.9% o GYC Cymru.
- Mae'r amgylchedd hanesyddol hefyd yn cyfrannu rhyw £1.8 biliwn o ran allbwn.
- Mae craidd mewnol y sector amgylchedd hanesyddol yn cefnogi dros 2,100 o swyddi FTE yng Nghymru, ac amcangyfrifir bod hyn yn cyfrannu rhyw £80 miliwn i GYC cenedlaethol Cymru, gyda bron i £140 miliwn o ran allbwn.
- Mae cyfran sylweddol o'r effaith economaidd yn ymwneud â gwariant gan dwristiaid y gellir ei briodoli i'r amgylchedd hanesyddol. Mae'r ymchwiliad yn nodi bod un rhan o bump (20%) o gyfanswm y gwariant gan dwristiaid yn amcangyfrifiad rhesymol, os braidd yn geidwadol, o bwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol wrth ddenu ymwelwyr i Gymru.
- Amcangyfrifir bod gwariant gan dwristiaid yn cefnogi rhyw 14,900 o swyddi FTE yng Nghymru, a bod hyn yn cynrychioli rhyw £330 miliwn o ran GYC a mwy na £610 miliwn o ran allbwn.
- Mae'r sector dreftadaeth adeiledig hefyd yn gyfran sylweddol o gyfanswm yr effaith economaidd. Mae cyfran sylweddol o'r effaith gyffredinol hon yn ganlyniad i grantiau a/neu wariant gan sefydliadau craidd yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, er enghraifft er mwyn cadw neu atgyweirio asedau hanesyddol y maent yn geidwaid ohonynt.
- Gan gynnwys gwaith a ariennir gan grantiau a gwariant gan sefydliadau craidd yr amgylchedd hanesyddol, mae'r sector dreftadaeth adeiledig yn cynnal dros 13,400 o swyddi FTE yng Nghymru, ac mae'n creu rhyw £450 miliwn o ran GYC ac £1.1 biliwn o ran allbwn.



Gwerth Ehangach Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Gwerth Ehangach Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Mae'r bennod flaenorol yn dangos bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn chwarae rôl glir wrth gyfrannu at economi Cymru. Fodd bynnag, os ystyrir hefyd ei werth cyhoeddus ehangach, mae gwerth cyffredinol amgylchedd hanesyddol Cymru mewn gwirionedd yn fwy o lawer. Yn ôl Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'n ased sy'n cyfrannu at bob agwedd ar egwyddorion datblygu cynaliadwy, fel y diffinnir isod⁸:

"Mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol."

Mae'r bennod hon yn crynhoi gwerth ehangach amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r wybodaeth wedi'i chasglu gan ymgynghoriadau gydag unigolion sy'n gweithio yn yr amgylchedd hanesyddol, yn ogystal â naw astudiaeth achos a ddisgrifir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Gwerth Economaidd

Cefnogi gweithgareddau adfywio ehangach: Gall yr amgylchedd hanesyddol wneud cyfraniad pwysig at y gwaith o adfywio ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd, fel y caiff ei ddangos gan yr astudiaeth achos ar Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon. Mae cyfleoedd adfywio yn aml yn canolbwyntio ar adeiladau eiconig ac mae eu hailddefnyddio a'u hintegreiddio yn rhan hanfodol o lwyddiant gweithgareddau adfywio ehangach. Drwy addasu adeiladau hanesyddol at ddibenion cyfoes, ac wrth ddarparu safle o ansawdd uchel ar gyfer datblygiad newydd, mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnig amgylchedd unigryw y mae pobl yn dewis byw a gweithio ynddo. Ar ben hyn, mae eu natur a'u hansawdd hefyd yn gyfle i adfywio ardaloedd sydd wedi mynd â'u pen iddynt. Er mwyn cydnabod hyn, mae Adran Adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi tri ffocws thematig, ac un o'r rhain yw treftadaeth.

Mae Amgueddfa Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sydd wedi'i lleoli mewn adeilad rhestredig pwysig, yn cael ei hailddatblygu gyda'r bwriad o greu prosiect a fydd yn un o brif atyniadau Gogledd Cymru. Bydd yr Amgueddfa yn bwynt ffocws ar gyfer canol y dref ac felly mae'n rhan allweddol o raglen adfywio ehangach o lawer ar gyfer canol y dref.

Gwella sgiliau ar gyfer swyddi: Gall y sector amgylchedd hanesyddol gyfrannu at ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd er mwyn gwireddu eu potensial yn y gwaith. Yn ogystal, gall gyfrannu at y blaenoriaethau a amlinellir yn "Gwireddu'r Potensial: Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru", sydd â'r nod o ysgogi swyddi gwyrdd newydd drwy feithrin sgiliau. Er enghraifft, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn rhoi'r cyfle i oedolion ennill cymwysterau galwedigaethol cydnabyddedig drwy ei rhaglen 'Careerships' a gall yr addysg hon yn ei thro wella cyflawniadau pobl a'u tebygolrwydd o ennill gwaith. Yn yr un modd, mae Cadw yn hyrwyddo sgiliau traddodiadol drwy ddefnyddio prentisiaid. Mae gan golegau addysg bellach a phrifysgolion hefyd rôl allweddol wrth feithrin sgiliau o lefel uwch yn y sector amgylchedd hanesyddol.

Bob blwyddyn, mae cwmni penseiri Davies Sutton Architects, sy'n arbenigo mewn cadwraeth a gofalu am adeiladau hanesyddol, yn cynnig lleoliad gwaith blwyddyn i fyfyrwr o Ysgol Bensaerniaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd.

Troednodion:

⁸ Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, 2009, Llywodraeth Cynulliad Cymru



Sbarduno buddsoddiad: Gall yr amgylchedd hanesyddol ysgogi buddsoddiad pellach hefyd. Ceir enghreifftiau lu o adeiladau hanesyddol sydd wedi'u hadfer sydd bellach yn cynnig gweithle i gefnogi seiliau busnes cynaliadwy. Er enghraifft, mae Tŷ Beechwood yn adeilad rhestredig gradd II yng Nghasnewydd, bellach wedi'i ailwampio i greu Canolfan Entrepreneuriaeth, ac mae Sefydliad Glynebwy, sef sefydliad hynaf Cymru sy'n adeilad rhestredig gradd II, wedi'i adfer a bellach yn cynnig gofod deori ar gyfer mentrau creadigol lleol. Gall adfywio adeilad hanesyddol pwysig neu raglen adfywio ehangach sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth hefyd ysgogi'r sector cyhoeddus neu'r sector preifat i fuddsoddi mewn ardal. Mae astudiaeth achos Gwesty Morgans yn Abertawe yn dangos sut y gall trosi adeilad rhestredig ysgogi buddsoddiad gan y sector preifat yn yr economi twristiaeth.

Mae Mentrau Treftadaeth Treflun (THI), a ariennir gan y CDL, yn cefnogi'r gwaith o atgyweirio ac adfywio'r amgylchedd hanesyddol mewn trefi a dinasoedd. Hyd yn hyn, mae 26 THI wedi'u dyfarnu yng Nghymru ac ar gyfer pob £1 miliwn a ariennir gan y CDL, mae £620,000 yn cael ei godi gan sefydliadau partner.

Gwerth Amgylcheddol

Diogelu'r amgylchedd hanesyddol: Mae tua 2,882 o adeiladau rhestredig mewn perygl yng Nghymru⁹ ond mae achos cryf dros adfywio'r asedau hyn er lles yr adeilad, a hefyd er lles yr ardal a'r gymuned gyfan. Ceir eisoes dystiolaeth o ystod o brosiectau adfywio sydd wedi gwella ansawdd adeiladau sydd mewn perygl. O ganlyniad, maent wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr o adeiladau mewn perygl, ac mewn llawer o achosion, maent yn cael eu defnyddio unwaith eto. Ymysg enghreifftiau mae'r Hen Siop yn Sir Benfro, Troedrhwiwallen yng Ngheredigion ac Allt-y-Bela yn Sir Fynwy.

Cynnal bioamrywiaeth ac ansawdd amgylcheddol: Mae egwyddorion cadwraeth wrth wraidd meddylfryd yr holl sefydliadau sy'n gweithredu yn y sector amgylchedd hanesyddol. Mae adfywio a chynnal a chadw parhaus yn gwella ansawdd amgylcheddol yr adeilad rhestredig ei hun a'r ardal o'i gwmpas. Yn yr un modd, mae tirweddau naturiol hanesyddol yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi a chadw bioamrywiaeth. Er enghraifft, mae amgylchedd naturiol camlesi, fel y gwelir yn astudiaethau achos Camlas Mynwy ac Aberhonddu, a bryngaerau Cymru yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi bywyd gwyllt.

Arbed ynni drwy adfer adeiladau hanesyddol: Gellir cyflawni gostyngiadau sylweddol mewn allyriannau carbon drwy adfer ac aildddefnyddio adeiladau hanesyddol, yn hytrach nag adeiladu strwythurau newydd. Os bydd adeilad hanesyddol yn cael ei ddymchwel, mae'r ynni sydd wedi'i ymgorffori yn yr hen adeilad yn cael ei golli a bydd angen rhagor o ynni i ddymchwel yr hen adeilad a chodi un newydd.

Troednodion:

Gwerth Ehangach Amgylchedd Hanesyddol Cymru (parhad)

Gwerth Cymdeithasol

Hyrwyddo mynediad at yr amgylchedd hanesyddol a dealltwriaeth ohono: mae sefydliadau yn y sector amgylchedd hanesyddol yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn hygyrch i bawb, yn enwedig yr unigolion hynny nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu â'u treftadaeth leol. Er enghraifft, mae'r sector yn cefnogi dysgu anffurfiol drwy gyfrwng ei gyhoeddiadau a thaflenni, adnoddau archif, rhaglenni teledu, teithiau tywysedig a digwyddiadau. Caiff hyn ei ddangos yn glir yn astudiaeth achos y rhaglen deledu 'Hidden Histories'. Yn ogystal, mae digwyddiadau Drws Agored yn rhoi mynediad am ddim i adeiladau hanesyddol ledled Cymru. Mae sefydliadau hefyd wedi ymdrechu i wella arwyddion a chodi ymwybyddiaeth o asedau treftadaeth yng nghymunedau Cymru.

Mae cwmni theatr 'Taking Flight' yn perfformio yn yr awyr agored ar safleoedd hanesyddol nad ydynt yn cael llawer o ddefnydd. Mae'r cast yn gymysgedd o actorion anabl ac actorion nad ydynt yn anabl. Y nod yw sicrhau bod y theatr ac amgylchedd hanesyddol Cymru yn fwy hygyrch i bawb.

Gwella cydlyniant a hunaniaeth gymunedol: Mae treftadaeth ardal yn bwysig iawn i gymunedau lleol ac mae'n hanfodol wrth gynnal traddodiadau a sefydlu ymdeimlad o berthyn. Mae cyfraniad treftadaeth, mewn gwirionedd, yn mynd y tu hwnt i bwysigrwydd archeolegol neu hanesyddol - yn wir mae'n cyfrannu at hunaniaeth a chof lleol. Drwy helpu pobl i ddeall hanes a dyfodol eu bro, gall treftadaeth feithrin hunaniaeth gymunedol¹⁰ a helpu i feithrin cydlyniant cymunedol.

Gwella balchder bro: Os bydd adeiladau hanesyddol yn mynd â'u pen iddynt, gallant ddod yn fagned ar gyfer ymddygiad gwrth-gymdeithasol a fandaliaeth. I'r gwrthwyneb, gall adeiladau hanesyddol o ansawdd uchel fagu hyder mewn ardal leol ac ennyn balchder bro. Gall hyn yn ei dro chwarae rôl allweddol wrth leihau lefelau trosedd, fel y gwelir yn astudiaeth achos Plas a Gerddi Erddig yn Wrecsam.

Meithrin gallu cymuned a pherchnogaeth: Gall yr amgylchedd hanesyddol gynnig ffocws sy'n annog cymunedau lleol i gydweithio a chymryd cyfrifoldeb am ansawdd eu hamgylchedd hanesyddol lleol. Nod Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) yw helpu pobl i fynd ati i gyfranogi yn eu treftadaeth a gwneud penderfyniadau yn ei chylch; yn 2009/10, dyfarnodd yr CDL £6.9m i 61 o brosiectau yng Nghymru a rhoddwyd cefnogaeth ddangosol o dros £20 miliwn i brosiectau yng Nghymru. Yn ogystal, mae Ymddiriedolaethau Cadw Adeiladau, sy'n rhoi bywyd newydd i hen adeiladau, yn enghreifftiau allweddol o sefydliadau sy'n cael eu gyrru gan gymunedau lleol, er budd cymunedau lleol.

Mae'r sector amgylchedd hanesyddol hefyd yn cynnig ystod o gyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddi i alluogi cymunedau lleol i gymryd rhan yn y gwaith o ddiogelu a chadw'r amgylchedd hanesyddol. Mae'n gadarnhaol bod llawer o sefydliadau yn y sector amgylchedd hanesyddol yn ceisio datblygu mwy ar hyn.


Mae Arfordir yn annog gwirfoddolwyr, a gaiff eu hyfforddi gan archeolegwyr proffesiynol, i helpu i ddod o hyd i safleoedd archeolegol ar yr arfordir sy'n cael eu heffeithio gan erydiad ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ac yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Troednodion:

10 Astudiaeth Gwmpasu ar Fuddion Cymdeithasol-Economaidd Treftadaeth yn y Parciau Cenedlaethol, 2008, CCRI

Amlinellir isod enghreifftiau eraill o gyfleoedd gwirfoddoli yn yr amgylchedd hanesyddol.

Gwirfoddoli



Ffynhonnell: Ymgynghoriadau

Annog lles a gwella ansawdd bywyd: Gall yr amgylchedd hanesyddol gefnogi lles cymunedau lleol, a gaiff ei ddiffinio fel cyflwr meddyliol a chorfforol cadarnhaol¹¹. Yn benodol, gall wella gweithgareddau hamdden, sydd yn eu tro yn gwella iechyd pobl, eu ffitrwydd a'u lles cyffredinol.

Mae gwirfoddoli yng nghyd-destun treftadaeth hefyd yn helpu pobl i deimlo'n dda, er enghraifft mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn awgrymu bod eu cyfleoedd gwirfoddoli yn gallu bod yn fodd i fyw i bobl sydd wedi bod yn dioddef o salwch neu iechyd gwael.

Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn ceisio gwneud defnydd o linellau rheilffordd nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio i wella rhwydweithiau beicio a cherdded yn yr ardal. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod yr amgylchedd hanesyddol yn hanfodol i ansawdd y llwybrau hyn a'r profiad ohonynt.


Troednodion:

11 Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn eich Pced, 2008, Defra

Gwerth Ehangach Amgylchedd Hanesyddol Cymru (parhad)

Cynnig cyfleoedd dysgu i bobl o bob oed a chefnogi cwricwlwm cenedlaethol Cymru: Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer dysgu, yn nhermau cefnogi'r cwricwlwm a hyrwyddo dysgu allgyrsiol fel ei gilydd. Mae ymweliadau addysgol yn weithgaredd allweddol i lawer o sefydliadau sy'n gweithio yn y sector amgylchedd hanesyddol, er enghraifft, mae Cadw yn cyflogi Rheolwr Dysgu Gydol Oes llawn amser i hwyluso ystod o weithgareddau addysgol. Ceir hefyd enghreifftiau lu o sefydliadau sydd wedi datblygu adnoddau ac offer addysgol i gefnogi cwricwlwm cenedlaethol Cymru. Mae un enghraifft i'w gweld yn astudiaeth achos Bryngaer Oes Haearn Castell Henllys yn Sir Benfro. Mae graddfa'r ymweliadau addysgol yn y sector amgylchedd hanesyddol yn cael ei amlygu gan sampl o sefydliadau yn y ffigur isod.

Ymweliadau addysgol



Ffynhonnell: Ymgynghoriadau

Astudiaethau Achos

Mae'r adrannau canlynol yn nodi cyfres o astudiaethau achos sy'n dangos gwerth ansoddol amgylchedd hanesyddol Cymru. Dewiswyd y naw astudiaeth achos ar y sail eu bod yn rhoi enghreifftiau o:

- Ystod o wahanol asedau hanesyddol;
- Amrywiaeth ddaearyddol o asedau hanesyddol, gan gynnwys asedau mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig;
- Ystod o wahanol sefydliadau arweiniol, gan gynnwys y rheiny o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat;
- Ystod o wahanol fuddion, gan gynnwys buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.



Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon

Statws Treftadaeth y Byd yn gatalydd ar gyfer adfywio a thwristiaeth holistig, yn seiliedig ar dreftadaeth.

Yr Ased

Mae tirwedd ddiwydiannol Blaenafon i'w chandod ar gyrion gogledd-ddwyreiniol Maes Glo De Cymru a heddiw gellir gweld ôl y mwyngloddio a'r gwaith haearn a fu yno yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Mae'r dirwedd yn cynnwys pwll glo hanesyddol; 24 o henebion cofrestredig gan gynnwys Gweithfeydd Haearn Blaenafon, llawer o adeiladau rhestredig gan gynnwys y rheiny yn nhref Blaenafon, Ardal Gadwraeth Blaenafon a Chwmafon a chamlas Mynwy ac Aberhonddu.

Yn 2000, dynodwyd ardal 33 km² o dirwedd ddiwydiannol Blaenafon yn Safle Treftadaeth y Byd, sef yr acolâd rhyngwladol uchaf y gellir ei ennill yn nhermau treftadaeth. Mae'r Safle arbennig hwn hefyd o fewn Blaenau'r Cymoedd, sef un o ardaloedd adfywio strategol Cymru.

Gweithgareddau

Mae Partneriaeth Blaenafon, a arweinir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac sy'n cynnwys 13 o wahanol sefydliadau, wedi rheoli rhaglen adfywio sylweddol ym Mlaenafon. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys: adfer amgueddfa'r Big Pit; cadw Gweithfeydd Haearn Blaenafon; creu Canolfan Treftadaeth y Byd; adnewyddu tai ac eiddo masnachol; gwella'r amgylchedd a'r dirwedd; gwella brandio a dehongli; digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol.

Mewnbynnau

Erbyn diwedd 2007, roedd Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon wedi ysgogi buddsoddiad o £30.8 miliwn yn yr ardal.

Buddion Economaidd

Cefnogi'r economi leol drwy dwristiaeth: Mae Blaenafon wedi datblygu ei darpariaeth o ran twristiaeth dreftadaeth, ac o ganlyniad, mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu 100% dros bum mlynedd. Er enghraifft, yn 2009:

- Llwyddodd y Big Pit i ddenu 165,696 o ymwelwyr;
- Llwyddodd Gweithfeydd Haearn Blaenafon i ddenu 29,961 o ymwelwyr;
- Llwyddodd Rheilffordd Treftadaeth Blaenafon i ddenu 9,364 o ymwelwyr.

O ganlyniad, mae Amgueddfa'r Big Pit wedi creu a diogelu cyflogaeth ar y safle, ac ar hyn o bryd mae 65 o staff yn gweithio yno. Mae bob un ohonynt o'r Cymoedd ac mae tua'u hanner o Flaenafon. Ar ben hyn, tybir bod effaith economaidd yr amgueddfa ar y cyfan yn rhyw £4.93 miliwn yn nhermau'r arian y mae ymwelwyr yn ei wario. Mae hyn yn cefnogi 140 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a rhyw £3.25 miliwn o ran GYC¹².

Ysgogi buddsoddiad gan y sector preifat: Mae tref Blaenafon wedi'i gwella'n sylweddol ac mae wedi'i hailfrandio yn dref dreftadaeth. O ganlyniad, ysgogwyd buddsoddiad gan y sector preifat, er enghraifft:

- Mae o leiaf deg o fusnesau newydd wedi'u sefydlu, ac mae llawer o'r rhain yn siopau unigryw o ansawdd uchel, sy'n cefnogi twristiaeth ddiwylliannol.
- Mae buddsoddwr preifat wrthi'n adnewyddu adeilad hanesyddol mawr yng nghanol y dref er mwyn creu llety Gwely a Brecwast gydag 11 o ystafelloedd, bwyty a bar. Bydd hwn yn chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu darpariaeth ddiwylliannol y dref drwy annog pobl i aros dros nos.
- Mae gwaith wedi dechrau ar godi'r datblygiad tai preifat mwyaf ers hanner can mlynedd. Mae'r cynllun a'r dyluniad yn bodloni'r safonau uchel sy'n ofynnol o fewn Safle Treftadaeth y Byd.
- Yn ogystal, mae cynlluniau ar gyfer bragdy a chanolfan ymwelwyr newydd wedi'u cymeradwyo. Disgwylir i'r rhain ddod â 19 o swyddi newydd i'r ardal ac ysgogi rhagor o dwristiaeth. Roedd treftadaeth lofaol gref Blaenafon a'r Big Pit yn ffactorau allweddol wrth ddylanwadu ar y buddsoddiad hwn.

Cefnogi'r diwydiant adeiladu drwy ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol: Mae llawer o waith adeiladu wedi digwydd ym Mlaenafon er mwyn cadw ei hamgylchedd hanesyddol ac o ganlyniad, mae dros 100 o swyddi wedi'u creu yn y maes adeiladu yn flynyddol. Drwy'r gwaith hwn, mae cwmnïau adeiladu lleol wedi meithrin sgiliau cadwraeth a sgiliau adeiladu traddodiadol. Er enghraifft, dyfarnwyd grant CDL gwerth £5.4m i'r Big Pit i wella'r safle a'r cyfleusterau, gan gynnwys adfer 19 o adeiladau rhestredig. Yn ogystal, fel rhan o'i Brosiect Twristiaeth Treftadaeth a ariennir gan Raglen Gydyfeirio Ewropeaidd, mae Cadw yn bwriadu buddsoddi £1m erbyn 2014 er mwyn datblygu mwy ar Weithfeydd Haearn Blaenafon er mwyn gwella mynediad, mwynhad ymwelwyr a dehongli.



Buddion Amgylcheddol

Cadw ac ail-ddefnyddio asedau hanesyddol: Mae'r prif henebion, gan gynnwys Gweithfeydd Haearn Blaenafon ac Amgueddfa Lofaol y Big Pit wedi bod yn destun llawer o waith cadwraeth, gwaith diogelu parhaus a gwaith i'w datblygu fel atyniadau ymwelwyr pwysig. Mae canol tref Blaenafon, sy'n cynnwys llawer o adeiladau pwysig o'r 19eg ganrif, hefyd wedi gweld llawer o waith cadwraeth a gwaith gwella, sydd wedi ail-greu nodweddion archeolegol gwreiddiol gyda'r manylion yn seiliedig ar ffotograffau cynnar. Mae'r gwaith wedi arwain at:

- Adfer saerniaeth 500 o feddiannau.
- Adfer 75% o ddadfeiliad canol y dref.
- Gwneud defnydd unwaith eto o siopau canol y dref.
- Adfer adeiladau rhestredig pwysig, megis troi Ysgol Eglwys San Pedr gynt yn Ganolfan Dreftadaeth y Byd – y cyntaf o'i math yn y DU, a gwneud defnydd unwaith eto o Neuadd y Gweithwyr a Llyfrgell Blaenafon.
- Cynnydd o 300% mewn prisiau eiddo o fewn pum mlynedd (uwchben cyfartaledd y DU).

Buddion Cymdeithasol

Datblygu sgiliau a chyfleoedd gwirfoddoli er mwyn cadw'r amgylchedd hanesyddol: Caiff Rheilffordd Treftadaeth Blaenafon ei rheoli a'i gweithredu'n gyfan gwbl gan wirfoddolwyr. Mae unigolion yn cael eu hyfforddi er mwyn dysgu sut i weithredu, cynnal a chadw'r rheilffordd. Yn ogystal, mae ceidwaid gwirfoddol yn diogelu ac yn gwella'r dirwedd hanesyddol.

Newid canfyddiadau a chynyddu balchder bro: Mae Blaenafon wedi gweld gwelliannau sylweddol ac wedi'i hail-frandio'n dref dreftadaeth o fewn tirwedd gyffredinol Safle Treftadaeth y Byd. Yn ogystal, mae'r Big Pit wedi'i gydnabod yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru a chafodd Bythynnod 'Stack Square' yng Ngweithfeydd Haearn Blaenafon eu defnyddio ar gyfer cyfres deledu 'Coal House' y BBC. O ganlyniad, mae canfyddiadau o'r ardal a'i threftadaeth yn newid er gwell ac mae lefel hunan-fri a balchder bro yn cynyddu.

Troednodion:

12 Uned Ymchwil ar Economi Cymru, 2009

Delweddau:

Prif Ddelwedd
Cyngerdd yng Ngwaith Haearn Blaenafon
© Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru (Hawlfraint y Goron)

Delweddau Bach (chwith i'r dde)
Stryd wedi ei hatgyweirio, © Cyngor Bwrdeistref Sir Torfaen

Taith o amgylch y Big Pit, defnyddir y ddelwedd trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru

Rheilffordd Dreftadaeth Blaenafon, © Cyngor Bwrdeistref Sir Torfaen



Castell Caernarfon

Gwneud yn fawr o ased hanesyddol er mwyn cefnogi'r economi ehangach a chodi proffil treftadaeth genedlaethol Cymru.

Yr Ased

Mae Castell Caernarfon yn gastell canoloesol a adeiladwyd fel cadarnle milwrol ond hefyd fel cartref y llywodraeth a phalas brenhinol i'r Brenin Edward. Ym 1969, hoeliwyd llygaid y byd ar y castell pan arwisgwyd EF y Tywysog Siarl yn Dywysog Cymru yno. Mae tir Castell Caernarfon yn 1.2 acer ac o ganlyniad i'w faint, ei safle a'i bensaerniaeth, dyma un o henebion canoloesol mwyaf trawiadol Cymru.

Caiff Castell Caernarfon ei reoli gan Cadw ac, ynghyd â chestyll Harlech, Biwmares a Chonwy, mae'n ffurfio Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Threfi Muriog Edward I yng Ngwynedd, a arysgrifwyd ym 1987. Castell Caernarfon yw un o'r cestyll mwyaf a mwyaf adnabyddus yng Nghymru, a hwn sy'n denu'r nifer fwyaf o ymwelwyr. O'r herwydd, fe'i hystyrir yn berl yng nghoron stad Cadw.

Gweithgareddau

Mae Castell Caernarfon yn atyniad treftadaeth sy'n cynnwys arddangosfeydd ar y safle a siop anrhegion.

Mae 15-18 o ddigwyddiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal yn y Castell bob blwyddyn, yn amrywio o ddigwyddiadau adrodd straeon syml i arddangosiadau sy'n ail-greu brwydrau.

Mae'r Castell yn cynnig ymweliadau addysgiadol.

Mae'r Castell hefyd yn gartref i Amgueddfa Gatrodol y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig – sef catrawd hynaf Cymru.

Mewnbynau

Yn 2009/10, llwyddodd y Castell i godi bron i £900,000 mewn taliadau mynediad (£4.95 i oedolion a £4.60 fel pris â disgownt) a gwerthiannau.

Buddion Economaidd

Cefnogi twristiaeth yng Nghymru: Yn 2009, daeth 194,293 o ymwelwyr i Gastell Caernarfon. Nid oes yr un o atyniadau eraill Cadw yn ennill cymaint o arian â Chastell Caernarfon, ac mae'n rhif chwech ar y rhestr o'r deg atyniad gorau yng Nghymru sy'n codi tâl ar ymwelwyr¹³. Mae Castell Caernarfon yn ased treftadaeth eiconig yng Nghymru. Yn ddiweddar, bu'n rhan o ymgyrch farchnata ar gyfer Croeso Cymru ("Gwyliau Go lawn"), sy'n ceisio cyfleu a rhannu'r hyn sy'n arbennig am wyliau yng Nghymru.

Cefnogi'r economi leol ehangach: Cydnabyddir bod y Castell yn ased pwysig i dref Caernarfon, ac fel y cyfryw, mae'n rhan amlwg iawn o Strategaeth Arwyddion a Brandio'r dref¹⁴. Fel arfer, bydd ymwelydd yn gwario cyfartaledd o £4.50 yng Nghastell Caernarfon ac mae'r safle yn cefnogi 11 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, ond at hynny, mae'r Castell hefyd yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi economi canol y dref a'r economi leol. O gofio ei faint a'i bwysigrwydd fel atyniad twristiaid, mae'r Castell yn denu ymwelwyr i'r ardal, gan gynnwys llawer o ymwelwyr rhyngwladol sy'n cyrraedd yn y llongau mordeithio sy'n docio yng Nghaerdybi, a thrwy hynny mae'n helpu i gefnogi atyniadau ymwelwyr eraill, yn ogystal â siopau lleol, bwytai a darparwyr llety yn yr ardal. Yn ôl gwaith ymchwil a wnaed gan Cadw, gan ddefnyddio lluosydd o £32,000 ar gyfer swyddi cyfwerth ag amser llawn yn yr ardal, mae trosiant y Castell yn awgrymu bod 28 o swyddi yn cael eu creu yn yr ardal o'i herwydd.



Buddion Amgylcheddol

Cyfrannu at ansawdd amgylcheddol: Mae'r incwm a enillir drwy godi tâl mynediad i Gastell Caernarfon, a buddsoddiad gan Cadw, wedi helpu i ddiogelu a chadw ased hanesyddol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. At hynny, o ystyried ei faint a'i leoliad, mae'r Castell yn chwarae rhan bwysig wrth gyfrannu at ansawdd amgylcheddol ac atynfa gyffredinol Caernarfon ac Ardal Adfywio Môn Menai. Mae'r Castell hefyd wrth wraidd yr astudiaeth nodweddiad ar gyfer Glannau Caernarfon, sy'n cael ei gynhyrchu gan Cadw er mwyn llywio gwaith adfywio yn y dyfodol o gwmpas y Cei Llechi a'r glannau ehangach.

Buddion Cymdeithasol

Cofio hanes Cymru: Caernarfon oedd man geni Tywysog Seisnig cyntaf Cymru, sef y Brenin Edward II, ym 1284. Dyma hefyd safle arwisgo'r Tywysog Edward (1911) a'r Tywysog Siarl (1969) yn Dywysogion Cymru. Bu i'r ddau ddigwyddiad helpu i godi profil ac arwyddocâd y Castell fel heneb allweddol yn hunaniaeth a seice'r Gymru fodern. Daw llawer o ymwelwyr i Gaernarfon oherwydd y cysylltiad brenhinol hwn. Heddiw, mae'r Castell yn gartref i Amgueddfa Gatrodol y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, sy'n adrodd hanes y gatradd hanesyddol hon o Fyddin Prydain ers ei sefydlu ym 1689. Mae hefyd yn lleoliad ar gyfer digwyddiadau cymunedol sy'n tynnu pobl o bob oed ynghyd i goffáu a dathlu hanes Cymru, er enghraifft cynhelir Diwrnod yr Hen Filwyr yn y Castell. Mae arddangosfeydd dehongliadol ar y safle yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i olrhain hanes Tywysogion Cymru a'u cysylltiad â'r Castell. Yn ogystal, gellir gweld arddangosfa sy'n dangos y cysylltiadau rhwng sefydlu'r Castell a datblygu tref Caernarfon.

Dathlu diwylliant Cymru: Mae Castell Caernarfon yn rhan o fenter i arddangos amrywiaeth ddiwylliannol gyfoethog Cymru drwy gyfrwng ystod o weithgareddau creadigol ar safleoedd hanesyddol. Mae'r fenter, o'r enw 'Crochan a Ffwrnais', yn rhan o'r Olympiad Ddiwylliannol, sydd â'r nod o helpu i sicrhau bod y Gemau Olympaidd yn gadael etifeddiaeth ar gyfer pobl ifanc. Yn 2009, bu artist gweledol, bardd ac awdur yn gweithio gydag ysgolion y fro i greu ystod o faneri wedi'u hysbrydoli gan fythau, symbolau a hanes y Castell. Yn ogystal, bu pobl ifanc o ysgol i blant ag anghenion arbennig yn datblygu ffilm fer wedi'i hanimeiddio yn y Castell. Tuag at ddiwedd 2010, bydd gwaith yn dechrau ar ddigwyddiad y bwriedir ei gynnal yn y Castell ar noswyl Gemau Olympaidd 2012. Bydd y digwyddiad yn cynnwys 850 o blant lleol ac 8 artist mewn gweithdai amrywiol.

Cefnogi addysg: Mae Castell Caernarfon yn cynnig cyfleoedd addysgol mewn ffyrdd sy'n helpu i ddod â hanes yn fyw. Ar gyfartaledd, ceir rhyw 6,000 o ymweliadau addysgol â'r Castell bob blwyddyn, yn amrywio o ysgolion cynradd i Brifysgol y Drydedd Oes (U3A). Fel rhan o wythnos addysg oedolion, mae Castell Caernarfon hefyd yn cynnal gŵyl ddysgu flynyddol, sy'n cynnig gweithgareddau yn ymwneud â'r celfyddydau, crefft, sgiliau traddodiadol a gweithgareddau hanes byw. Yn 2010, llwyddodd yr ŵyl i ddenu 600 o ymwelwyr.

Troednodion:

- 13** *Ymchwil Denu Ymwelwyr, 2009, Croeso Cymru*
- 14** *Strategaeth Arwyddion a Brandio Caernarfon, 2008, Imagemakers*

Delweddau:

Delweddau Bach
© Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru (Hawlfraint y Goron)



Menter Treftadaeth Treflun Aberteifi

Defnyddio menter treftadaeth treflun i sbarduno buddsoddiad pellach yng nghanol tref hanesyddol Aberteifi.

Yr Ased

Rhaglen grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) yw'r Fenter Treftadaeth Treflun (MTT) a gynhelir er mwyn atgyweirio ac adfywio amgylchedd hanesyddol trefi a dinasoedd ledled y DU. Mae tref Aberteifi yn ganolfan ddiwylliannol a masnachol hynafol, sy'n frith o adeiladau o'r Oes Fictoraidd. Cyflwynwyd MTT Aberteifi i ddiogelu ac adfer tirweddau pensaernïol unigryw y dref.

Roedd cam cyntaf y fenter, a gymeradwywyd yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 1999, mor llwyddiannus fel y lansiwyd ail gam ym mis Hydref 2004. Mae Cam Dau y fenter wedi'i gyllido i raddau llawer mwy helaeth, ac wedi derbyn cefnogaeth nifer o bartneriaid allweddol gan gynnwys CDL, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cadw a Menter Aberteifi.

Gweithgareddau

Mae'r ddau gam wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol: atgyweirio adeiladau ac adfer nodweddion pensaernïol; ail-ddefnyddio arwynebedd llawr hanesyddol a oedd yn wag yn flaenorol; gwaith tir y cyhoedd; a mentrau cyflenwol megis cyrsiau hyfforddi i ddatblygu sgiliau unigolion a busnesau lleol o ran technegau adeiladu traddodiadol a gweithgareddau addysgol ar gyfer plant ysgol.

Mewnbynnau

Cyfrannwyd £571,000 at Gam Un y Fenter, a ddarparwyd yn bennaf gan CDL, Cadw a Chyngor Bwrdeistref Sirol Ceredigion.

Mae Cam Dau y Fenter yn gam llawer mwy gyda chostau prosiect o oddeutu £3,145,000. Darparwyd tua thraean o'r cyllid hwn gan CDL, a'r gweddill drwy gyllid Amcan 1, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Sir Ceredigion a Cadw.





Buddion Economaidd

Sicrhau bod economi canol y dref yn sefydlog: O ganlyniad i waith a wnaed i atgyweirio ac adnewyddu ffryntiadau siopau, yn ogystal â gwaith i wella y tu mewn i siopau (o ganlyniad i gyllid ychwanegol drwy gyfrwng Grant Adnewyddu Tai y cyngor) a gwelliannau i dir y cyhoedd, mae'r MTT yn Aberteifi wedi llwyddo i wella canol y dref o ran siopa, cyflogaeth, tai a hamdden. Mae nifer y siopau gwag hefyd wedi gostwng ac mae amrywiaeth a safon y siopa sydd ar gael wedi gwella'n sylweddol. O ganlyniad, mae'r dref wedi gweld cynnydd amlwg yn nifer yr ymwelwyr, ac yn bwysicach fyth, mae'r MTT wedi chwarae rhan allweddol o ran datblygu canol y dref a'i gwneud yn ardal ddeniadol ac unigryw. Ystyrir bod hyn yn allweddol o ran sicrhau dyfodol economaidd sefydlog a chynaliadwy i Aberteifi.

Ysgogi buddsoddiad preifat a chyhoeddus: Mae cyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri drwy'r MTT wedi helpu i ddiogelu rhagor o gyllid gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus megis Cadw a Chyngor Sir Ceredigion. Yn ogystal, mae perchnogion yr adeiladau wedi ychwanegu at y cyllid MTT drwy gyfrannu arian cyfatebol o'u pocedi eu hunain.

Integreiddio â mentrau adfywio lleol: Mae gweithgareddau a gyllidwyd o dan Gam Un yr MTT hefyd wedi cefnogi nifer o fentrau adfywio eraill a gyllidir yn gyhoeddus, ac mewn rhai achosion wedi dylanwadu arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Grant Gwella Tref (GGT) a gynigiwyd gan yr awdurdod lleol er mwyn ariannu gweithgareddau yng ngweddill yr ardal gadwraeth sy'n agos i'r MTT;
- £5.9 miliwn o gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at Gynllun Adfywio Aberteifi a De Ceredigion;
- Y cynllun arfaethedig i adfer Castell Aberteifi; ac
- Ail-adeiladu Ceir Tywysog Siarl a chreu Llwybr ar Lan yr Afon o Bont Aberteifi i Faes Parcio Somerfield.

Datblygu sgiliau adeiladu traddodiadol: Drwy'r MTT, darparwyd cyngor arbenigol ar ddiogelu nodweddion gwreiddiol adeiladau a defnyddio technegau adeiladu traddodiadol. Mae'r Fenter hefyd wedi ariannu hyfforddiant ar gyfer contractwyr a syrfewyr lleol i ddysgu sgiliau adeiladu traddodiadol, megis plastro calch.

Buddion Amgylcheddol

Adfer adeiladau hanesyddol: Ers cyflwyno cynllun MTT, mae dros 60 meddiant wedi derbyn arian drwy'r MTT neu'r Grant Gwella Tref ac o'r rhain, roedd o leiaf 13 yn rhai a oedd angen eu gwella yn 'ddifrifol'. Mae'r grantiau hyn wedi llwyddo i wella cymeriad ac edrychiad yr eiddo hanesyddol yng nghanol y dref. Cyn gweithredu'r MTT, roedd y dref wedi'i hesgeuluso gyda llawer o'i hadeiladau hanesyddol wedi dechrau adfeilio.

Buddion Cymdeithasol

Cefnogi hunaniaeth a hyder lleol: Mae'r gwaith i wella canol y dref a'r eiddo preswyl wedi llwyddo i feithrin hunaniaeth leol a balchder bro yn yr ardal. Mae grŵp cymunedol lleol o'r enw 'The Look of the Town' yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn rym lloio pwerus.

Delweddau:

Mae'r ddelwedd uchaf ar y dde a'r isaf ar y chwith yn cymharu cyn ac ar ôl y gwaith atgyweirio

Pob Delwedd

© Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru (Hawlfraint y Goron)

Bryngaer Oes yr Haearn Castell Henllys, Sir Benfro

Dehongli asedau hanesyddol mewn modd sy'n addysgu ac yn ennyn diddordeb ymwelwyr, plant ysgol a myfyrwyr yn effeithiol.

Yr Ased

Bryngaer fewndirol o Oes yr Haearn yw Castell Henllys sydd wedi'i lleoli yng Ngogledd Sir Benfro ac yn dyddio o oddeutu 600 CC. Mae'r fryngaer yn heneb gofrestredig sydd ag amddiffynfeydd sylweddol, tystiolaeth o safon sy'n dangos anheddiad ac adeiladau mewnol, a phorth wedi'i wneud o garreg. Mae'r fryngaer yn llechu o fewn tri deg erw o goetiroedd a gweirgloddiau a dyma'r unig Fryngaer o Oes yr Haearn sy'n cynnwys tai crwn wedi'u hail-greu ar eu seiliau archeolegol gwreiddiol. Caiff y safle ei reoli gan y perchennog, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.

Gweithgareddau

Atyniad i ymwelwyr yw Castell Henllys, sy'n cynnig canolfan i ymwelwyr, siop anrhegion a theithiau dyddiol. Mae'r safle hefyd yn cynnig oddeutu 100 o weithgareddau a digwyddiadau bob blwyddyn, gan gynnwys sesiynau adrodd straeon, gweithdai crefft traddodiadol ac archeoleg arbrofol. Man gan Gastell Henllys ganolfan addysg ac mae'n darparu rhaglen addysgol i ysgolion pob blwyddyn. Mae archeolegwyr hefyd wedi bod yn cloddio ar y safle am fwy nag ugain mlynedd.

Mewnbynnau

Mae gan Gastell Henllys gostau gweithredol o tua £55,000. Mae Castell Henllys hefyd yn creu incwm drwy godi tâl mynediad (£4.50 i oedolion a £3.00 ar gyfer consesiynau) a gwerthiant masnachol.

Buddion Economaidd

Cefnogi'r economi leol drwy gyfrwng twristiaeth:

Mae Castell Henllys yn atyniad twristiaeth allweddol yng Ngogledd Sir Benfro ac yn 2009, llwyddodd i ddenu 29,484¹⁵ o ymwelwyr. Mae Castell Henllys yn cefnogi oddeutu wyth o swyddi yn uniongyrchol ar y safle a thrwy ddenu ymwelwyr i'r ardal, mae hefyd yn allweddol o ran cefnogi'r economi leol yn ehangach. I gydnabod hyn, mae'r ganolfan bellach ar agor drwy gydol y flwyddyn, gan annog darparwyr llety, siopau ac atyniadau ymwelwyr lleol eraill i agor drwy gydol y flwyddyn hefyd.

Cynnig cyfleoedd hyfforddi:

Roedd Castell Henllys yn cynnal un o'r cloddfeydd hyfforddi archeolegol mwyaf ym Mhrydain am fwy na 20 o flynyddoedd. Roedd y gloddfa yn cael ei harwain gan Brifysgol Caerefrog ac am chwe wythnos bob haf, byddai myfyrwyr o bedwar ban byd yn ymuno â'r gloddfa er mwyn dysgu egwyddorion a dulliau y broses gloddio archeolegol. Yn ei hanterth, roedd dros 400 o fyfyrwyr yn cymryd rhan yn y gloddfa bob blwyddyn. Yn ogystal, mae Castell Henllys hefyd yn cynnig profiad gwaith i fyfyrwyr.



Buddion Amgylcheddol

Adfer y dirwedd hanesyddol: Mae adeiladau â tho gwellt o Oes yr Haearn, gan gynnwys pedwar tŷ crwn ac ysgubor, wedi'u hail-adeiladu ar eu seiliau archeolegol cloddedig gwreiddiol. Adeiladwyd y tai crwn gan ddefnyddio deunyddiau a thechnegau adeiladu traddodiadol, gan gynnwys coed derw ar gyfer y ceibrennau, y pyst a'r trawstiau cylch, llwyni collen ar gyfer y waliau plethwaith a chysr y dŵr ar gyfer y to gwellt, yn ogystal â rhaff a llinyn cywarch. Cafodd yr 'Hen Dŷ Crwn' ei ail-adeiladu dros ugain mlynedd yn ôl ac mae wedi sefyll yn hirach nag unrhyw dŷ crwn Oes yr Haearn arall sydd wedi'i ail-adeiladu ym Mhrydain.

Buddion Cymdeithasol

Cefnogi Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru: Mae Castell Henllys wedi datblygu rhaglen arloesol ar gyfer ysgolion, sy'n darparu ar gyfer hyd at 7,000 o ddisgyblion ysgol bob blwyddyn, a hynny o dros 200 o ysgolion ledled Cymru. Caiff plant y cyfle i gyfarfod pobl wedi gwisgo yn nillad o Oes yr Haearn, clywed am chwedlau a mythau ac archwilio sgiliau Oes yr Haearn. Datblygwyd y rhaglen mewn partneriaeth â'r awdurdod addysg lleol er mwyn sicrhau ei bod yn briodol i gwricwlwm Cyfnod Allweddol 2. Caiff ei darparu ar y safle, a defnyddir yr adeiladau i ddehongli Castell Henllys a thirwedd cyn-hanesyddol ehangach Cymru. Caiff hyn ei ategu ymhellach yn ôl yn y dosbarth. Yn 2009, enillodd Castell Henllys Wobr

Sandford am Addysg Dreftadaeth, sy'n cydnabod arfer da o ran cynnal gweithgareddau addysgol mewn asedau hanesyddol.

Ennyn diddordeb teuluoedd a'r gymuned mewn hanes lleol: Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n ymweld â Chastell Henllys yn deuluoedd, ac i gydnabod hynny, mae'r safle yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n annog ymwelwyr a thrigolion i ddysgu am hanes cyfoethog ac amrywiol y dirwedd. At hynny, mae'r safle yn annog grwpiau yn y gymuned sydd o dan anfantais i ymuno. Mae'r safle yn cynnig llwybrau â cherfluniau sy'n darlunio chwedlau, teithiau dyddiol ac amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau. Yn 2010, mae'r digwyddiadau yn canolbwyntio ar ganeuon a straeon Celtaidd, dathlu gwyliau Celtaidd, archwilio'r bywyd gwyllt o fewn y fryngaer, a dysgu sgiliau crefft traddodiadol.

Troednodion:

15 Ymchwil ar Atyniadau i Ymwelwyr – Croeso Cymru, 2009

Delweddau:

Prif Ddelwedd
Y Tai Crynion, cyflenwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Delweddau Bach
Gweithgareddau yng Nghastell Henllys, cyflenwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro



Tŷ a Gerddi Erddig, Wrecsam

Meithrin ymdeimlad o falchder bro a datblygu sgiliau cyflogadwyedd drwy gynnwys trigolion lleol yn y broses o reoli ased hanesyddol.

Yr Ased

Roedd Tŷ Erddig, sy'n dyddio o ddechrau'r 18^{fed} ganrif ac sydd wedi'i leoli dwy filltir i'r de o Wrecsam, yn gartref i deulu yn wreiddiol a rhoddwyd y stad i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym 1973. Mae'r tŷ yn adlewyrchu'r bywyd 'fyny grisiau' a 'lawr grisiau' yr oedd y teuluoedd bonheddig yn arfer ei fyw dros 250 o flynyddoedd yn ôl, ac mae wedi'i leoli mewn gardd ffurfiol a pharc tirwedd, sy'n fannau cychwyn ar gyfer teithiau cerdded, teithiau beicio a theithiau cerbyd drwy'r stad.

Mae'r stad yn cynnwys tair fferm a chwe bwthyn â thenantiaid, safle mwnt a beili, nifer o adeiladau y tu allan gan gynnwys stablau, gefail, siop saer, melin goed a'r unig glwb ieuencid yn y wlad a gynhelir ar y cyd rhwng yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Cyngor Cymuned.

Gweithgareddau

Mae stad Erddig yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau:

Ar gyfartaledd, mae Erddig yn denu oddeutu 110,000 o ymwelwyr y flwyddyn sy'n talu i weld y tŷ a'r gerddi, yn ogystal â 250,000 sy'n ymweld â thir y parc amgylchynol, sy'n rhad ac am ddim.

Mae'r safle yn cynnal amrywiaeth o wyliau, ffeiriau crefft, dyddiau llawn hwyl i deuluoedd a pherfformiadau mewn theatr awyr agored.

Mae'r safle yn cynnig gweithgareddau addysgol, gan gynnwys Rhaglen Addysg Ysgolion Cynradd.

Mae hefyd yn cefnogi gweithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys gwaith ymarferol ar y stad i bobl ifanc.

Mae Erddig yn cynnig lleoliadau profiad gwaith i ddisgyblion ysgol a myfyrwyr coleg a phrifysgol.

Mae'n cynnig addysg a hyfforddiant amgylcheddol i oedolion.

Mae Clwb Ieuencid Erddig, lle mae pobl ifanc yn cefnogi'r gwaith o gynnal a chadw'r stad, wedi'i leoli ar y safle.

Mae'r stad hefyd yn gartref i amrywiaeth o brosiectau cadwraeth, megis wythnosau cadwraeth a'r prosiect Mabwysiadu Coetir.

Mewnbynnau

Dros y pum mlynedd diwethaf, ar gyfartaledd, mae wedi costio £890,000 y flwyddyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol allu cynnal Tŷ a Gerddi Erddig. Ar gyfartaledd, mae'r ased yn creu incwm o oddeutu £728,000 y flwyddyn drwy gyfrwng taliadau mynediad, parlw'r te, siop a siop lyfrau. Mae hefyd yn creu cryn dipyn o incwm (16%) drwy rentu'r ffermydd a'r bythynnod yn y rhannau eraill o'r stad. Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn rhoi cymhorthdal o £162,000 y flwyddyn i amgylchedd hanesyddol Erddig er mwyn iddo allu cyflawni'r nod deublyg o sicrhau cadwraeth a mynediad 'am byth ac i bawb'.

Caiff llawer o'r gweithgareddau cymunedol yn Erddig eu gweithredu ar sail wirfoddol a chaiff rhaglenni addysg a lleoliadau gwaith eu cefnogi gan ysgolion, colegau a phrifysgolion lleol.

Buddion Economaidd

Datblygu sgiliau cyflogadwyedd: Drwy gyfrwng hyfforddiant ffurfiol a lleoliadau gwaith ar gyfer myfyrwyr y coleg a'r brifysgol, mae'r stad a'i staff yn cyfrannu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i ennill cyflogaeth mewn amrywiaeth o alwedigaethau sy'n ymwneud â chadwraeth. Ar gyfartaledd, caiff deg o gysiau NVQ, yn ogystal â 20 i 30 o gysiau llai, eu darparu bob blwyddyn. Yn ogystal, caiff 15 i 20 o leoliadau gwaith eu cynnig bob blwyddyn.

Buddion Amgylcheddol

Codi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd: Mae tŷ a stad Erddig yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chadwraeth. Mae'r Wythnosau Cadwraeth yn enghraifft o hyn, sy'n annog pobl ifanc i ymgymryd â thasgau cadwraeth ymarferol dros y penwythnos neu yn ystod gwyliau'r haf; y cynllun 'Mabwysiadu Coetir', sy'n galluogi disgyblion o ysgol anghenion arbennig lleol i reoli ardal o Lewis Wood mewn cydweithrediad â'r Warden; a gweithgareddau i oedolion sy'n cynnwys y gwaith parhaus o gynnal a chadw'r gerddi a chefnogi'r gwaith o gynnal y tŷ. Diben gweithgareddau o'r fath, gydag oedolion a phobl ifanc, yw codi ymwybyddiaeth o gadwraeth a'r angen i edrych ar ôl yr amgylchedd. Mae'r ymwelwyr a'r gymuned leol yn dysgu am gynefinoedd amrywiol y stad ac yn dysgu sut i ofalu am y tir a'r tu mewn i'r tŷ.



Buddion Cymdeithasol

Ysgogi balchder bro a lleihau troseddau gan bobl ifanc: Gan fod Erddig yn agos at y stadau tai lleol a'r lluo o fynedfeydd cyhoeddus at y stad, roedd y stad yn arfer dioddef lefelau uchel o fandaliaeth a throsedd. Fodd bynnag, dros ddeng mlynedd yn ôl, datblygwyd dull cymunedol o reoli stad Erddig, a oedd yn annog trigolion lleol i ymweld â'r stad a chymryd rhan yn y broses o'i rheoli a'i diogelu. Sefydlwyd Canolfan Ieuencid hefyd, a oedd yn galluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a gwaith cadwraeth ar y stad, ac felly yn cadw eu meddwl oddi ar droseddau tra hefyd yn codi eu hymwybyddiaeth o'r amgylchedd hanesyddol a'u hannog i'w werthfawrogi. Dros y blynyddoedd, mae'r dull hwn wedi llwyddo i feithrin ymdeimlad o falchder bro yn y tî a'r ardal amgylchynol. Mae trigolion lleol bellach yn ystyried Erddig fel ased cymunedol y dylid ei warchod a'i ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cefnogi cymunedau cynhwysol: Mae'r amrywiaeth o weithgareddau a gynhelir yn Erddig wedi llwyddo i ddwyn y gymuned ynghyd. Er enghraifft, mae pobl ifanc yn gweithio ochr yn ochr â phobl hŷn. Un enghraifft o'r fath yw'r trafodaethau cymunedol sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth o bynciau gan gynnwys cyfleoedd gwirfoddoli, rheoli cefngwlad, cadwraeth natur a chod cefn gwlad. Yn ogystal, caiff y rhai a arferai fod ar gyron y gymdeithas, megis pobl nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs) a'r rhai hynny a

oedd ar gyfnod prawf, eu croesawu a'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ar y stad. O ganlyniad, mae gwell dealltwriaeth a pharch rhwng y naill a'r llall a rhwng rhannau amrywiol o'r gymuned.

Hwb i hunan-barch ac ysgogiad: Mae Erddig wedi chwarae rhan bwysig iawn o ran hybu hyder a hunan-barch y gymuned leol. Mae gwaith ymgysylltu drwy gyfrwng lleoliadau gwaith a gweithgareddau yn y ganolfan ieuencid, yn rhoi blas ymarferol i bobl ifanc, gan gynnwys troseddwr ifanc a NEETs, o sut beth yw amgylchedd gwaith tra hefyd yn rhoi hwb i'w hyder a'u helpu i ddatblygu'r sgiliau cymdeithasol a rhyngbersonol sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y byd gwaith. Yn ogystal, mae cynllun gwirfoddoli'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn rhoi cyfle i dros 250 o unigolion gyfrannu at gynnal a chadw stad Erddig. Mae hyn yn rhoi hwb i ysgogiad a hyder pobl, gan gynnwys y rhai sy'n ddi-waith neu wedi ymddeol.

Delweddau:

Prif Ddelwedd

Tŷ Erddig, © NTPL/Rupert Truman

Delweddau Bach

Cyflenwyd delweddau Ymwneud â'r Cyhoedd gan staff

Ymddiriedolaeth Genedlaethol Erddig



Cyfres Deledu 'Hidden Histories'

Defnyddio cyfres deledu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o dreftadaeth Cymru.

Yr Ased

Cyfres deledu yw *Hidden Histories* sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth Cymru. Mae'r gyfres wedi ymdrin ag amrywiaeth helaeth o asedau treftadaeth, gan gynnwys:

Caerau Pentir Sir Benfro

Colofn Eliseg

Traphont Ddŵr Pontcysyllte

Bryngaer Gaer Fawr

Gweithfeydd copr Upper Bank, Abertawe

Tai gan Herbert North, Llanfairfechan

Maglau pysgod o'r canoloesoedd, Abergwaun

Eglwys Gadeiriol Tyddewi

Ffesydd hyfforddi y Rhyfel Byd Cyntaf ger Dinbych-y-pysgod

Chwarel Lechi Vivian, Llanberis

Gweithgareddau

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yw'r corff sy'n ymchwilio i amgylchedd hanesyddol Cymru ac mae cyfres deledu *Hidden Histories* gan y BBC yn dilyn arbenigwyr y Comisiwn Brenhinol a sefydliadau partner wrth iddynt ddatgelu dehongliadau newydd o dreftadaeth Cymru. Comisiynwyd y rhaglen gan BBC Wales a chafodd ei chynhyrchu mewn partneriaeth rhwng y Comisiwn Brenhinol a chwmni Element Productions. Comisiynwyd y gyfres gyntaf yn 2008 a chafodd ei dangos yn wreiddiol ar BBC Wales ac yna hefyd ar BBC4, a ddarledodd y rhaglen ar draws gweddill y DU. O ganlyniad i lwyddiant y rhaglen, comisiynwyd ail gyfres yn 2009 a bydd y drydedd gyfres yn cael ei darlledu ddechrau 2011.

Mewnbynnau

Amcangyfrifir bod y Comisiwn Brenhinol wedi cyfrannu £14,000 mewn amser staff a chostau eraill fesul cyfres. Cafodd hyn ei wrthbwyso gan £4,000 ar gyfer yr hawliau i'r delweddau. Tua £150,000 y gyfres oedd cyllideb y cynhyrchiad.

Buddion

Codi ymwybyddiaeth o dreftadaeth Cymru a gwella dealltwriaeth ohoni: Mae *Hidden Histories* wedi codi ymwybyddiaeth o dreftadaeth Cymru ymhlith ystod amrywiol o bobl, a hynny yng Nghymru a thu hwnt. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y ffigurau gwyllo a gesglir gan y BBC¹⁶, fel yr amlinellir isod:

- Yn 2008, roedd cyfartaledd o 90,000 yn gwyllo darllediad cyntaf pob pennod o *Hidden Histories* ar BBC2 Wales ac erbyn 2009, roedd y gynulleidfa gyfartalog wedi cynyddu i 101,000.
- Darlledwyd ailddarllediadau amrywiol o'r rhaglen hefyd, er enghraifft, darlledwyd Cyfres 1 dair gwaith ar BBC2 Wales a dwywaith ar rwydwaith BBC4, gan gynyddu cyfanswm y gwylwyr ledled y DU i bron i 500,000 ar gyfer pob pennod.
- Nid yw'r ffigurau ar gael ar gyfer yr iPlayer, ond mae'n nodedig fod penodau o'r gyfres yn ymddangos yn rheolaidd ar y rhestr o'r pedair rhaglen fwyaf poblogaidd yng Nghymru.
- Mae'r rhaglenni wedi denu Mynegai Gwerthfawrogiad syfrdanol o 87%, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer rhaglenni ffeithiol.
- Llwyddodd *Hidden Histories* i ddenu cynulleidfa amrywiol iawn. Roedd yn arbennig o boblogaidd gyda phobl 65 oed a hŷn ond llwyddodd hefyd i ddenu'r cyfartaledd ym mhob grŵp oedran arall, ar wahân i'r bobl rhwng 25 a 44 mlwydd oed, lle bu iddo sgorio'n is. Denodd y gyfres gyntaf gyfran uwch o wylwyr o ddosbarthiadau cymdeithasol uwch ond cafwyd cyfran uwch o wylwyr o'r dosbarthiadau cymdeithasol is ar gyfer yr ail gyfres.
- Roedd adborth gan wylwyr yn cyfleu'n gyson eu syndod at yr amrywiaeth o ran y safleoedd, adeiladau a phynciau sydd gan Gymru i'w cynnig.



Creu mwy o ddiddordeb yn nhreftadaeth Cymru

Mae *Hidden Histories* wedi arwain at nifer o fuddion cysylltiedig, sy'n dangos ei fod wedi llwyddo i greu mwy o ddiddordeb yn nhreftadaeth Cymru, a hynny ymhlith trigolion yng Nghymru a thu hwnt. Ceir tystiolaeth o'r buddion hyn isod:

- Gwerthwyd 1,641 o gopiâu o lyfr *Hidden Histories* a 383 o gopiâu o'r fersiwn Gymraeg, Trysorau Cudd, yn yr 18 mis wedi iddo gael ei gyhoeddi.
- Drwy ddefnyddio Google Analytics i astudio'r newid yn y defnydd a wneir o wefan y Comisiwn Brenhinol a Coflein, cronfa ddata genedlaethol ar-lein sy'n casglu gwybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru, dangoswyd bod nifer yr ymholiadau ar y ddwy wefan wedi cynyddu 10% o'i gymharu â'r misoedd cyn y gyfres.
- Mae clipiau o'r gyfres *Hidden Histories* yn cael eu defnyddio fel cynnwys ar gyfer Casgliad y Bobl, sef casgliad ar-lein o hanes Cymru. Nod Casgliad y Bobl yw ysgogi diddordeb pellach mewn bywyd Cymreig ac ehangu dealltwriaeth o dreftadaeth Cymru.

- Dim ond yng Nghymru y dangoswyd y rhaglenni yn wreiddiol ond cafodd eitemau eu dethol gan sefydliadau yn y DU a thramor, megis gwefan newyddion y BBC, a newyddion National Geographic yn yr Unol Daleithiau a nifer o flogiau a safleoedd grwpiau buddiant. Mae hyn wedi creu diddordeb yn hanes Cymru ymhlith pobl o du allan i Gymru.
- Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y gyfres deledu wedi chwarae rhan bwysig o ran annog pobl i ymweld ag asedau hanesyddol Cymru.

Troednodion:

- 16** *Crynodeb Cynulleidfa Diwedd-Cyfres ar gyfer Hidden Histories (Tach-Rhag 2008), 2008, Crynodeb Cynulleidfa BBC Wales a Diwedd-Cyfres ar gyfer Hidden Histories (Tach-Rhag 2009), 2009, BBC Wales*

Delweddau:

Prif Ddelwedd
Ffilmio *Hidden Histories*, © Hawlfraint y Goron CBHC

Delweddau Bach (chwith i'r dde)
Diwrnod Agored Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, taith gerdded wedi'i thywys, Eglwys Gadeiriol Tyddewi, © Hawlfraint y Goron CBHC



Camlas Mynwy ac Aberhonddu

Gwella system gamlas er mwyn denu ymwelwyr a hyrwyddo ffordd iach o fyw, tra hefyd yn diogelu bioamrywiaeth.

Yr Ased

Mae Camlas Mynwy ac Aberhonddu, sy'n dyddio'n ôl i'r 1790au, yn gamlas dirgaeedig ac wedi'i rhannu'n ddwy ran; llwybr mordwyadwy parhaus sy'n ymestyn 35 milltir o hen dref farchnad Aberhonddu i Goetre, Five Locks a Chwmbrân, ac 17 milltir pellach o Five Locks i Gasnewydd (Crindai) ac i Risga a Chwmcarn (Cangen Crymlyn).

Mae rhan fordwyadwy y gamlas (sef prif ffocws yr astudiaeth achos hon), sy'n eiddo i Ddyfrffyrdd Prydain, yn cynnwys dwy Heneb Gofrestredig a 117 o strwythurau cofrestredig sy'n cynnwys ceiau a thwneli hanesyddol, yn ogystal â nifer o bontydd a lociau. Mae'r rhan hon o'r gamlas hefyd yn llifo drwy Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r 17 milltir sy'n weddill, sy'n eiddo'n rhannol i Gynghorau Torfaen, Casnewydd a Chaerffili, yn cynnwys Canolfan Ymwelwyr Fourteen Locks yng Nghasnewydd.

Gweithgareddau

Mae 96% o'r defnydd a wneir o'r gamlas yn digwydd ar y tir gyda dros 3 miliwn o ymweliadau y flwyddyn gan feicwyr a cherddwyr. Yn ogystal, mae'r gamlas yn cynnal gweithgareddau traddodiadol megis clybiau cychod, sy'n cynnwys 47 o gychod ar log yn 2009/10, yn ogystal â physgota a chanwio.

Mae'r amgylchedd o gwmpas y ddyfrffordd yn cynnig ased addysgol i ysgolion lleol. Er enghraifft, mae *Wild over Waterways*¹⁷ wedi datblygu map o'r cwricwlwm yn disgrifio'r meysydd pwnc o fewn cwricwlwm 7-11 y gellir eu haddysgu drwy ddefnyddio'r gamlas fel adnodd.

Mae'r gamlas gyfan hefyd yn ased twristiaeth pwysig.

Mewnbynnau

Ar gyfer y rhan o'r gamlas sy'n eiddo i Ddyfrffyrdd Prydain, dangosodd gwaith ymchwil blaenorol¹⁸ fod £439,000 wedi'i wario ar y gwaith rheolaidd o gynnal a chadw'r gamlas yn 2006/07 (cyfalaf a reffeniw).

Yn achos yr awdurdodau lleol, mae gan bob un fynediad at gronfeydd cyllid gwahanol ac maent wedi denu lefelau amrywiol o gyllid allanol. Fodd bynnag, mae'r tri awdurdod yn defnyddio eu cyllid i gynnal y gamlas ac asedau cysylltiedig megis llwybrau cerdded a gwaith tir.

Buddion Economaidd

Denu ymwelwyr: Mae'r gymysgedd o dirwedd a threftadaeth naturiol ac adeiledig sy'n rhan gynhenid o unrhyw ddyfrffordd, ynghyd â rhwyddineb mynediad, yn gatalydd arwyddocaol ar gyfer twristiaeth a buddsoddiad mewnol cysylltiedig. Amcangyfrifwyd mewn gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn 2007 bod Camlas Mynwy ac Aberhonddu, sy'n eiddo i Ddyfrffyrdd Prydain, yn denu (bob blwyddyn):

2,876,000 o ymwelwyr anffurfiol e.e. cerddwyr

125,000 o feicwyr

16,000 o bysgotwyr

23,000 o ganŵ-wyr / badwyr

Ar ben hynny, mae'r tueddiadau cenedlaethol ers hynny wedi dangos cynnydd o bron i 30% yn nifer y bobl sy'n ymweld â dyfrffyrdd a weithredir gan Ddyfrffyrdd Prydain yng Nghymru a Lloegr ac nid oes unrhyw reswm i awgrymu nad yw tueddiadau o'r fath wedi'u hadlewyrchu ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu. Yn ogystal, llwyddodd canolfan ymwelwyr Fourteen Locks, a gafodd ei hail-agor ym mis Mai 2008, i ddenu 46,480 o ymwelwyr yn ei hail flwyddyn o weithredu, sef cynnydd o 35% o'i gymharu â'i blwyddyn gyntaf.

Twristiaeth yn cefnogi'r economi ehangach: Mae twristiaeth a gweithgareddau hamdden ar y gamlas yn cefnogi clwstwr o fentrau bach a chanolig gan gynnwys marinas, cwmnïau hurio, cwmnïau trwsio ac adeiladu cychod a siopau llongwyr ynghyd â thafarndai, bwtai, gwestai a chanolfannau ymwelwyr megis y rhai yng Ngoetre a Fourteen Locks. At hynny, yn 2007, amcangyfrifwyd y byddai'r rhai sy'n ymweld â Chamlas Mynwy ac Aberhonddu yn gwario oddeutu £17 miliwn a chyda hyn, yn ogystal â'r gwaith parhaus i gynnal a chadw ac adfer strwythurau'r gamlas, cefnogwyd 390 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn yr ardal.

Buddion Amgylcheddol

Diogelu bioamrywiaeth: Mae Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn chwarae rhan bwysig o ran diogelu bioamrywiaeth yr ardal gan fod y dyfrffyrdd a'u hardaloedd amgylchynol yn cynnig cynefinoedd gwerthfawr i filoedd o anifeiliaid a phlanhigion. Mae dyfrffyrdd megis Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn gartref i 19 o rywogaethau sydd â blaenoriaeth ac maent yn debygol o fod yn gartref dros dro neu'n gartref parhaol i hyd at 100 o rywogaethau eraill.



Lleihau allyriadau carbon: Mae argaeledd llwybrau tynnu sydd wedi'u cynnal yn dda yn annog pobl i gerdded neu feicio yn hytrach na defnyddio'u ceir, sy'n arwain at lai o dagfeydd ac allyriadau carbon. Yn ôl Dyfrffyrdd Prydain¹⁹, amcangyfrifir ar gyfer pob cilomedr o lwybrau tynnu a gaiff eu gwella, bydd 100 o dunelli o garbon deuocsid yn cael ei arbed y flwyddyn.

Buddion Cymdeithasol

Hybu iechyd a lles: Un o'r prif ganlyniadau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r gamlas at ddibenion hamdden, yn ogystal â'i lwybrau tynnu a'i lwybrau beicio, yw ei fod yn gwella iechyd a lles unigolion. Mae llwybrau tynnu camlesi yn ddiogel ac yn wastad. Yn ogystal, mae dros 320,000 o bobl (11% o boblogaeth Cymru) yn byw o fewn 5 milltir i Gamlas Mynwy ac Aberhonddu. O ganlyniad mae llwybrau tynnu'r gamlas yn rai o'r cyfleusterau mwyaf hygyrch ar gyfer gweithgareddau hamdden yng Nghymru, ac mae llawer yn eu defnyddio.

Mae gwella llwybrau yn ffordd hawdd o annog mwy o ddefnydd (dyblu defnydd fel arfer) ac ymarfer corff (63% o ymwelwyr yn fwy gweithgar fel arfer) ac yn *Your Waterways - Our Vision*, mae Dyfrffyrdd Prydain yn amcangyfrif ar gyfer pob cilomedr o'r llwybrau tynnu a gaiff ei wella, bydd yn arwain at werth £18,000 o fuddion iechyd. Yn yr un modd ag y mae mwy o bobl yn mynd a'u cychod ar y gamlas, mae mwy a mwy o bobl hefyd yn defnyddio'r gamlas ar gyfer canŵio.

Troednodion:

17 www.wow4water.net

18 *Waterways in Wales: Economic Costs and Benefits of the Welsh Canal Network, 2007* - Cwmni Ymchwil ac Ymgynghori ECOTEC

19 *Your Waterways – Our Vision, 2010*, Dyfrffyrdd Prydain

Delweddau:

Pob Delwedd © Dyfrffyrdd Prydain



Gwesty Morgans, Abertawe

Trawsnewid adeilad rhestredig i sbarduno buddsoddiad preifat yn yr economi twristiaeth.

Yr Ased

Gwesty boutique yw Morgans mewn adeilad rhestredig gradd II* yn Abertawe. Arferai'r adeilad fod yn gartref i Ymddiriedolaeth Harbwr Abertawe a sefydlwyd ym 1791 er mwyn ehangu a diogelu harbwr tref Abertawe. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd busnes yr ymddiriedolaeth wedi cynyddu'n sylweddol ac roedd yr ymddiriedolwyr o'r farn y dylid codi adeilad arbennig. Cafodd ei ddylunio gan Edwin Seward a phan agorwyd yr adeilad ym 1903, roedd hi'n glir bod y cyfuniad o ddylunio trawiadol, deunyddiau o safon uwch a gwaith crefftwyr talentog wedi cynhyrchu ased, nid yn unig i Ymddiriedolaeth yr Harbwr, ond i Abertawe ei hun²⁰.

Roedd yr adeilad wedi bod yn wag am ddegawd ond yn 2002, cafodd ei drawsnewid yn llwyddiannus gan greu Gwesty a oedd yn cadw cymeriad gwreiddiol yr adeilad.

Gweithgareddau

Cafodd adeilad rhestredig Gradd II* ei drawsnewid yn westy sy'n cynnwys 20 o ystafelloedd, bwyty a dau far; ystafell gyfarfod a llyfrgell sydd ar gael ar gyfer busnes neu ddigwyddiadau cymdeithasol; a thrwydded ar gyfer seremonïau sifil.

Mewnbynnau

Prynwyd yr adeilad yn 2001 ac ar y pryd, £3 miliwn oedd cyfanswm y gost o'i drawsnewid yn westy (dros gyfnod o 18 mis).





Manteision Economaidd

Cyfrannu at adfywio ehangach: Pan agorwyd yr adeilad am y tro cyntaf, ysgrifennodd y newyddiadurwr a oedd yn adrodd am y seremoni agoriadol (o'i gyfieithu): "Mae'r adeilad mwy neu lai wedi gweddnewid holl edrychiad y rhan hon o Abertawe". Mae'r adeilad wedi'i leoli rhwng yr ardal forl a chanol y ddinas a does dim dwywaith ei fod, ar ei newydd wedd, wedi chwarae rhan allweddol o ran hybu ac adfywio Abertawe fel ei bod yn integreiddio'n well â'r môr.

Cefnogi'r economi leol: Mae Gwesty Morgans yn cyflogi oddeutu 70 o staff ac mae'n defnyddio oddeutu 40 o gyflenwyr lleol yn uniongyrchol. Yn ogystal, mae'r gwesty yn cynnal digwyddiad, "Y Gwir Flas", lle mae noswaith yn cael ei chynnal yn arbennig ar gyfer dathlu bwydydd o Gymru, megis caws a gwin unigryw, cig eidion a chig oen a physgod ffres a bwyd môr. Yn ogystal â dathlu diwylliant Cymru, mae'r digwyddiad hwn hefyd yn cefnogi busnesau lleol.

Denu ymwelwyr sy'n arwain at fuddion eraill: Caiff y gwesty ei adnabod fel prif borth a chanolbwynt ar gyfer twristiaeth yn Abertawe; mae dros 200,000 o bobl yn ymweld â Gwesty Morgans bob blwyddyn, un ai i aros yno neu i ddefnyddio'r bwyty a'r bariau. O ganlyniad, mae'r ymwelwyr hyn yn cefnogi'r economi ehangach, er enghraifft mae 61% o ymwelwyr dros nos yn Ne-orllewin Cymru yn bwyta allan / ymweld â bariau a thafarndai a 53% yn mynd i siopa²¹.

Buddion amgylcheddol

Atgyweirio adeilad hanesyddol: Drwy adfer yr adeilad, roedd hyn yn sicrhau bod ei gymeriad gwreiddiol yn cael ei ddiogelu, ac o'r tu allan mae'n ymddangos nad yw'r adeiladau wedi newid rhyw lawer. Fel enghreifftiau, mae'r clochdy, y gwydr lliw, y grisiau, y pileri a'r mowldinau oll wedi'u cadw ac mae gan Far Morgans y waliau bric, y lloriau concrit a'r hytrawstiau metel a oedd yn wreiddiol i adeilad yr 1920au. Caiff hanes yr adeilad hefyd ei adlewyrchu yn ystafelloedd y gwesty gan eu bod wedi'u henwi ar ôl llongau a oedd un ai wedi'u cofrestru yn Abertawe neu wedi'u hadeiladu yno, er enghraifft John Bright (1864), Ambassador (1951) a Henry Belle (1903). Mae'r gwesty wedi cael ei ddisgrifio fel un "*modern sydd hefyd yn talu teyrnged i'w orffennol*" ac o ganlyniad i'r gwaith adfer, enillodd Gwesty Morgans un o gategoriau Gwobrau Dylunio yr Arglwydd Faer yn 2003.

Troednodion:

20 www.morganshotel.co.uk

21 Arolwg Ymwelwyr Cymru 2009, Adroddiad Ymwelwyr a fu'n Aros, Ebrill - Hydref 2009, Croeso Cymru

Delweddau:

Pob Delwedd © Gwesty Morgans



Tywi Afon yr Oesoedd, Sir Gaerfyrddin

Diogelu tirwedd hanesyddol drwy gryfhau ei chysylltiadau â'r gymuned a datblygu sgiliau priodol.

Yr Ased

Mae Dyffryn Tywi yn ymestyn o Fynyddoedd Cambria hyd at yr aber ym Mae Caerfyrddin, a chaiff ei adnabod fel un o dirweddau hanesyddol pwysicaf Cymru. O fewn y dyffryn, mae etifeddiaeth o gaerau, cestyll carreg, mwntiau o bridd a choed a bwrdeistrefi canoloesol. Mae 'Tywi Afon yr Oesoedd' yn brosiect sy'n canolbwyntio ar ddathlu a diogelu tirwedd y dyffryn rhwng Llangadog a Dryslwyn. Mae'r partneriaid allweddol fel a ganlyn: Cyngor Sir Gaerfyrddin, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Menter Bro Dinefwr.

Gweithgareddau

Dyma bedair prif thema prosiect Tywi Afon yr Oesoedd:

Chwilota'r Tywi! Archwilio gorffennol dyffryn Tywi drwy ddefnyddio dulliau daearegol, archeolegol a hanesyddol.

Tirwedd a bioamrywiaeth: Annog ffermwyr, tirfeddianwyr a grwpiau cymunedol i gynnal y dirwedd bwysig drwy gyfrwng cynllun grant cyfalaf ac amrywiaeth o brosiectau cymunedol ac amgylcheddol.

Canolfan Adeiladu Traddodiadol Cynaliadwy: Dathlu adeiladau traddodiadol a'r amgylchedd adeiledig drwy ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant ar sgiliau adeiladu traddodiadol.

Darganfod y Tywi: Cynnig amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau sy'n dehongli'r dyffryn mewn ffyrdd arloesol sy'n ysgogi ac yn ysbrydoli'r cyhoedd.

Mewnbynnau

Mae Tywi Afon yr Oesoedd yn brosiect tair blynedd sy'n costio £2.4 miliwn. Mae'r prosiect yn cael ei gyllido'n bennaf gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Menter Bro Dinefwr hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol, yn ogystal â chyfraniadau eraill megis amser staff.

Buddion Economaidd

Gwella sgiliau adeiladu traddodiadol: Mae'r Ganolfan Adeiladu Traddodiadol Cynaliadwy yn cynnig cyrsiau hyfforddi ymarferol sy'n gysylltiedig â gwaith coed, gwaith saer, gwaith cerrig a gwyngalchu. At hynny, mae'r cyrsiau hyn wedi'u dylunio fel rhan o gynllun prentisiaeth a fydd yn galluogi myfyrwyr i weithio tuag at Gardiau Treftadaeth i Ardystio eu Sgiliau Adeiladu. Yn ei chwe mis cyntaf, darparwyd 13 o gyrsiau hyfforddi yn y ganolfan, a oedd yn cynnwys cyfanswm o 67 o fyfyrwyr. Mae'r Ganolfan hefyd wedi darparu pedair sesiwn a digwyddiadau allgymorth er mwyn gwella gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r sgiliau adeiladu traddodiadol sydd eu hangen er mwyn cynnal cymeriad a phensaernïaeth Dyffryn Tywi. Er enghraifft, cynhaliwyd diwrnod agored ym mis Mai 2009 a ddenodd oddeutu 200 o bobl.

Cefnogi busnesau sy'n diogelu diwylliant lleol: Mae darparu hyfforddiant a darparu gwybodaeth am dulliau adeiladu traddodiadol yn cefnogi cwmnïau adeiladu a masnachu lleol. Yn ogystal, mae codi ymwybyddiaeth o fwydydd, ryseitiau a dulliau coginio traddodiadol sy'n gysylltiedig â'r ardal drwy gyfres o gyrsiau coginio a Gŵyl Fwyd yn helpu i gefnogi busnesau lleol.



Buddion Amgylcheddol

Adfer adeiladau a strwythurau hanesyddol: Cafodd dau adeilad hanesyddol eu hadfer ar Fferm Dinefwr, sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, er mwyn datblygu'r Ganolfan Adeiladau Traddodiadol Cynaliadwy. Mae'n dangos y gellir gwneud defnydd cynhyrchiol o adeiladau gwag tra hefyd yn cynnal eu cymeriad a'u cyfraniad at y dirwedd. Fel rhan o waith y Ganolfan, mae tri strwythur hanesyddol pellach hefyd wedi'u hadfer yn Nyffryn Tywi.

Diogelu'r dirwedd hanesyddol a bioamrywiaeth: Mae'r prosiect wedi dyrannu 60 o grantiau gwerth £380,826 i ffermwyr, tîrfeddianwyr a'r gymuned i wella tirwedd treftadaeth a bioamrywiaeth yr ardal. O ganlyniad, datblygwyd 14 o byllau sy'n gyfanswm o 5,412m² a gosodwyd 92 o giatau prosiect newydd, a bydd 1,378 o goed yn cael eu plannu.

Buddion Cymdeithasol

Gwella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o adeiladau a thirweddau hanesyddol: Mae prosiectau cymunedol wedi codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o adeiladau a thirweddau hanesyddol. Er enghraifft, caiff busnesau lleol eu hannog i ymchwilio i hanes eu hadeilad a rhannu eu stori, ac mae 30 o storïwyr yn addysgu pobl am hanes eu hardal. Yn ogystal, mae dulliau dehongli yn y Ganolfan Adeiladu Traddodiadol Cynaliadwy wedi galluogi pobl i ddysgu am ddeunyddiau treftadaeth a datblygwyd cyfeiriadur electronig o adnoddau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd i helpu pobl ifanc i ddysgu am eu diwylliant,

eu hanes a'u treftadaeth. Yn eu tro, mae'r gweithgareddau hyn wedi helpu i ddatblygu cysylltiadau rhwng y gymuned leol a'r dirwedd leol er mwyn atgyfnerthu ymdeimlad o berthyn.

Sbarduno gallu a pherchnogaeth gymunedol: Mae Tywi Afon yr Oesoedd wedi darparu amrywiaeth o brosiectau sy'n annog cymunedau a grwpiau lleol i chwarae rhan allweddol yn y broses o gynnal a chadw tirwedd hanesyddol Dyffryn Tywi. Mae'r prosiectau wedi cynnig cyfleoedd i wirfoddoli a dysgu sgiliau newydd drwy gyfrwng hyfforddiant, sesiynau gwybodaeth, cymorth arbenigol a grantiau. Er enghraifft, mae 10 o wirfoddolwyr wedi mynychu hyfforddiant arwain teithiau cerdded a bellach, maent yn arwain teithiau cerdded â thema sy'n ymwneud â phrif nodweddion hanesyddol a naturiol y dyffryn.

Defnyddio treftadaeth i annog gweithgarwch corfforol: Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau awyr agored er mwyn dwyn y gymuned ynghyd ac annog y defnydd o'r dirwedd hanesyddol i wneud ymarfer corff. Er enghraifft, roedd Castell Dinefwr, Castell Dryslwyn a Thŵr Paxton yn ganolbwynt i ddigwyddiad awyr agored, a lwyddodd i ddenu cannoedd o bobl.

Delweddau:

Dyffryn Tywi a gweithgareddau a drefnwyd gan y bartneriaeth,
© Tywi Afon yr Oesoedd



Casgliadau

Caiff prif ganfyddiadau'r ymchwili i fesur gwerth amgylchedd hanesyddol Cymru eu hamlinellu isod. Fodd bynnag, wrth ddehongli canlyniadau'r asesiad effaith economaidd, dylid ystyried eu bod yn geidwadol iawn.

Prif nodweddion amgylchedd hanesyddol Cymru yw ei gyfoeth a'i amrywiaeth, ac mae ei bwysigrwydd wedi'i gydnabod yn rhyngwladol

Mae gan amrywiaeth o sefydliadau gylch gwaith sy'n ymwneud yn bennaf â diogelu, cynnal a chadw a rheoli'r amgylchedd hanesyddol. Ond, yn ogystal â'r rhain, mae'r amgylchedd hanesyddol hefyd yn chwarae rhan allweddol, ond rhan ymhlyg, yng ngwaith nifer o sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae amgylchedd hanesyddol Cymru yn cynnwys bron i 30,000 o adeiladau rhestredig a thros 4,000 o henebion cofrestredig ac mae pwysigrwydd tirwedd hanesyddol Cymru wedi'i gydnabod yn rhyngwladol gyda thri safle ar Restr Safleoedd Treftadaeth y Byd.

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at economi Cymru

Wrth gymryd i ystyriaeth y sefydliadau sy'n ffurfio strwythur mewnol y sector amgylchedd hanesyddol, a'r sector adeiladu treftadaeth adeiledig, ynghyd â gwariant y twristiaid sy'n cael eu denu i Gymru yn bennaf gan yr amgylchedd hanesyddol, amcangyfrifir bod y sector amgylchedd hanesyddol yn cefnogi dros 30,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru. Yn ogystal, mae'n cyfrannu tua £840 miliwn i Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) cenedlaethol Cymru, sef 1.9% o GYC Cymru, a thua £1.8 biliwn o ran allbwn.

Gellir priodoli llawer o'r effeithiau economaidd sy'n gysylltiedig â gwariant ar dwristiaeth i'r amgylchedd hanesyddol


Mae'r amgylchedd hanesyddol yn ffactor pwysig i bobl sy'n dewis ymweld â Chymru. Mae'r ymchwili yn dangos fod un rhan o bump (20%) o gyfanswm y gwariant ar dwristiaeth yn cynrychioli amcangyfrif rhesymol, os ychydig yn geidwadol, o bwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol o ran denu ymwelwyr i Gymru. O ganlyniad, amcangyfrifir bod y gwariant ar dwristiaeth sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol yn cefnogi oddeutu 14,900 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru, sy'n cynrychioli tua £330 miliwn o ran GYC a mwy na £610 miliwn o ran allbwn.

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at adfywio ardaloedd trefol a gwledig

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn ychwanegu dimensiynau unigryw at y lleoedd hynny y mae pobl yn dewis byw, chwarae a gweithio ynddynt. Gall hyn amrywio o addasu adeiladau hanesyddol at ddibenion modern, i greu lleoliadau o safon ar gyfer datblygiadau newydd, i fod yn sbardun ar gyfer adfywio ardaloedd sydd wedi gweld dyddiau gwell.

Mae egwyddorion cadwraeth yn ganolog i bob sefydliad sy'n gweithredu yn y sector amgylchedd hanesyddol

Nid yn unig y mae atgyweirio a pharhau i gynnal a chadw adeiladau hanesyddol yn gwella ansawdd amgylcheddol yr adeilad ei hun, ond mae'n gwella'r ardal amgylchynol hefyd. Yn ogystal, drwy ail-ddefnyddio adeiladau hŷn a'u gwneud yn fwy effeithlon o ran ynni, gellir gwneud arbediadau allweddol o ran allyriadau carbon o'i gymharu ag adeiladau newydd. Mae tirweddau hanesyddol hefyd yn chwarae rhan allweddol mewn perthynas â chynnal a diogelu bioamrywiaeth.



Mae'r amgylchedd hanesyddol yn chwarae rhan allweddol o ran cefnogi lles cymdeithasol pobl a chymunedau

Mae treftadaeth ardal arbennig yn bwysig iawn i gymunedau lleol ac yn hanfodol er mwyn cynnal traddodiadau a chreu ymdeimlad o berthyn. Gall adeiladau hanesyddol o ansawdd hefyd feithrin hyder mewn ardal leol a hyrwyddo balchder bro. Yn ogystal, gall yr amgylchedd hanesyddol fod yn ganolbwynt ar gyfer sbarduno cydlyniant cymunedol.

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynrychioli adnodd pwysig mewn perthynas â chyfleoedd dysgu a hyfforddi

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnig cyfleoedd addysgol sylweddol, a hynny'n ffurfiol ac yn anffurfiol. Yn ogystal, mae nifer o sefydliadau yn y sector amgylchedd hanesyddol wedi datblygu sgiliau cadwraeth a chreffft draddodiadol drwy gyrsiau hyfforddi, prentisiaethau a lleoliadau.

Mae amgylchedd hanesyddol Cymru yn ased pwysig sy'n chwarae rhan hanfodol o ran gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymunedau Cymru. Mae gofalu am yr ased hwn a'i hyrwyddo yn hollbwysig; unwaith yr ydym ni'n colli elfennau ohono neu'n eu hanghofio, prin iawn y bydd modd eu hadennill.



